



MESURAU CYDADFEROL AC AMGYLCHIADAU ESGUSODOL

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyfarwyddyd ar y canlynol:

- mesurau cydadferol i fyfyrwyr â nam hirdymor;
- amgylchiadau esgusodol a gwaith cwrs;
- amgylchiadau esgusodol ac arholiadau a / neu gyflwyniadau.

Yn adran gyntaf y ddogfen (tudalennau 2 i 4) mae canllawiau cyflym i fyfyrwyr ar:

1. yr hyn y dylai myfyrwyr â nam hirdymor ei wneud (tudalen 2);
2. yr hyn y dylai myfyrwyr ag amgylchiadau esgusodol yng nghyswllt gwaith cwrs ei wneud (tudalen 3);
3. yr hyn y dylai myfyrwyr ag amgylchiadau esgusodol yng nghyswllt arholiadau a / neu gyflwyniadau ei wneud (tudalen 4).

Yn ail adran y ddogfen (tudalennau 5 i 10) mae cyfarwyddyd mwy cyflawn i fyfyrwyr a staff ar:

1. mesurau cydadferol i fyfyrwyr â nam hirdymor (tudalen 5);
2. amgylchiadau esgusodol yng nghyswllt gwaith cwrs (tudalennau 6-8);
3. amgylchiadau esgusodol yng nghyswllt arholiadau a / neu gyflwyniadau (tudalennau 8-10).

Yn nhrydedd adran y ddogfen, sef y rhan olaf (tudalennau 11 – 15), mae nifer o astudiaethau achos ffuglennol sy'n rhoi esiamplau o'r modd y mae'r gweithdrefnau'n gweithio'n ymarferol.

Ym mhob achos rhaid i fyfyrwyr gofio na fydd y Brifysgol yn gallu cefnogi ceisiadau am amgylchiadau esgusodol heb **dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy**.

ADRAN 1: CANLLAWIAU CYFLYM I FYFYRWYR

NAMAU HIRDYMROR: CANLLAW CYFLYM I FYFYRWYR

Os oes gennych nam hirdymor a allai amharu ar eich gallu i gwblhau asesiadau dylech sicrhau eich bod yn gallu darparu **tystiolaeth annibynnol** i gefnogi hyn, ac:

Os ydych wedi'ch asesu'n broffesiynol gan y Brifysgol ac wedi derbyn **Datganiad o Fesurau Cydadferol** (Atodiad GA17):

1. dylech gysylltu â'r gwasanaeth Cymorth Dysgu er mwyn sicrhau bod y mesurau cydadferol penodol sydd i'w cymhwyso at rannau penodol o asesiadau modylau unigol, wedi'u cytuno a'u cofnodi fesul achos unigol, ac yr hysbysir eich Ysgol a'r Swyddfa Academaidd am unrhyw fesurau cydadferol.

Os nad ydych wedi'ch asesu'n broffesiynol gan y Brifysgol hyd yn hyn (ac nid ydych wedi derbyn **Datganiad o Fesurau Cydadferol**):

1. dylech gysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr a gofyn am gyfweiliad cychwynnol i ddynodi gofynion posibl a threfnu 'asesiad anghenion' diagnostig ac arbenigol. Bydd angen i'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr weld dystiolaeth o'r nam. Gallai hyn fod ar ffurf y canlynol:
 - a) adroddiad gan feddyg teulu neu ymgynghorydd yn achos cyflwr meddygol corfforol neu seicolegol;
 - b) adroddiad Seicolegydd Addysg neu Asesydd Diagnostig Arbenigol sydd wedi'i achredu gan PATOSS (ôl-16 ac sy'n defnyddio'r profion cywir fel y diffinnir gan SASC) mewn achosion o Anawsterau Dysgu Penodol.
2. gan ddibynnu ar ganlyniad y cyfweiliad cychwynnol, mae'n bosibl y cewch fesurau cydadferol interim ar gyfer modylau unigol tan i **Ddatganiad o Fesurau Cydadferol** llawn gael ei lunio.

Os oes gennych nam hirdymor (ac mae gennych **Ddatganiad o Fesurau Cydadferol**) ond rydych yn datblygu anawsterau byrdymor nad ydynt â chysylltiad uniongyrchol â'ch nam hirdymor:

1. dylech gwblhau'r Ffurflen Amgylchiadau Esgusodol (Atodiad GA1) a'i hanfon ynghyd ag unrhyw dystiolaeth annibynnol i'r Swyddfa Academaidd **AR ÔL** ichi gyflwyno'ch gwaith, gan nodi unrhyw fesurau cydadferol sydd wedi'u cytuno ac sydd yn eu lle, ac ym mha ffordd nad yw'r Datganiad o Fesurau Cydadferol yn cwmpasu'r anawsterau tymor byr hyn.

ADRAN 1: CANLLAWIAU CYFLYM I FYFYRWYR

AMGYLCHIADAU ESGUSODOL – GWAITH CWRS: CANLLAW CYFLYM I FYFYRWYR

Os ydych o'r farn y gallai amgylchiadau esgusodol fod wedi amharu ar eich gallu i gwblhau'r gwaith cwrs:

1. dylech sicrhau y gallwch ddarparu **tystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy** i gefnogi hyn, a
2. dylech ystyried y gweithredoedd isod (gan nodi'r canlyniadau gwahanol sy'n dibynnu ar y penderfyniad ffurfiol ynglŷn â'r amgylchiadau esgusodol:

Gweithred	Beth a Pham	Canlyniad os mai'r penderfyniad ffurfiol ynglŷn â'r amgylchiadau esgusodol yw:	
		CADARNHAU	GWRTHOD
Cyflwyno gwaith ar amser	Efallai bod eich gwaith yn anghyflawn neu nid yw'n cyrraedd eich safon arferol, ond ni chaiff gosb fel arall.	Byddech yn gallu dewis un o'r isod: i) derbyn y marc a ddyfarnwyd am eich gwaith, neu ii) rhoi darn newydd o waith i mewn ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb.	Mae'r marc a ddyfarnwyd yn sefyll. (Os mai marc methu ydyw, gallai'r Bwrdd Arholi ganiatáu ymgais pellach i chi yn ystod y cyfnod ailasesu, wedi'i gapio ar y marc pasio lleiaf (40% ar gyfer Lefelau 4, 5 a 6 neu 50% ar gyfer Lefel 7).
Cyflwyno gwaith yn hwyr Ymgais cyntaf yn unig	Gallwch gymryd amser ychwanegol (hyd at wythnos, yn ddibynnol ar faint o amser a gollwyd yn eich tyb chi oherwydd eich amgylchiadau esgusodol) a chyflwyno darn o waith gorffenedig a fydd yn cael ei farcio fel arfer. Yn y lle cyntaf cymhwysir cosb hwyr – bydd y marc yn cael ei gapio ar y marc pasio lleiaf (40% ar gyfer Lefelau 4, 5 a 6 neu 50% ar gyfer gwaith Lefel 7).	Codir y gosb hwyr a chofnodir y marc llawn a roddwyd i'r gwaith cyn cymhwyso'r gosb.	Mae'r gosb hwyr yn sefyll. (Os rhoddir marc methu am y gwaith, gallai'r Bwrdd Arholi ganiatáu ymgais pellach i chi yn ystod y cyfnod ailasesu, wedi'i gapio ar y marc pasio lleiaf (40% ar gyfer Lefelau 4, 5 a 6 neu 50% ar gyfer Lefel 7).
Cyflwyno gwaith yn hwyr Ail-asesiadau	Gallwch gymryd amser ychwanegol (hyd at wythnos, yn ddibynnol ar faint o amser a gollwyd yn eich tyb chi oherwydd eich amgylchiadau esgusodol) a chyflwyno darn o waith gorffenedig a fydd yn cael ei farcio fel arfer. Yn y lle cyntaf cymhwysir cosb hwyr – cofnodir marc o 0%.	Codir y gosb hwyr a chofnodir y marc llawn a roddwyd i'r gwaith cyn cymhwyso'r gosb.	Mae'r gosb hwyr (marc o 0%) yn sefyll. Gallai'r Bwrdd Arholi ganiatáu ymgais pellach i chi yn ystod y cyfnod ailasesu, wedi'i gapio ar y marc pasio lleiaf (40% ar gyfer Lefelau 4, 5 a 6 neu 50% ar gyfer Lefel 7).
Peidio â chyflwyno gwaith	Rydych o'r farn na allwch gyflwyno'ch gwaith o fewn wythnos oherwydd eich amgylchiadau esgusodol - felly hyd yn oed os gallech gwblhau'r gwaith, ni fyddai'n cael ei dderbyn. Yn y lle cyntaf cofnodir hyn fel peidio â chyflwyno gwaith (non-submission) a dyfernir marc o 0% i chi.	Byddech yn cael caniatâd i roi darn newydd o waith i mewn ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb.	Mae'r marc am beidio â chyflwyno gwaith (marc o 0%) yn sefyll. Gallai'r Bwrdd Arholi ganiatáu ymgais pellach i chi yn ystod y cyfnod ailasesu, wedi'i gapio ar y marc pasio lleiaf (40% ar gyfer Lefelau 4, 5 a 6 neu 50% ar gyfer Lefel 7).

3. dylech gwblhau'r Ffurflen Amgylchiadau Esgusodol (Atodiad GA1) a'i hanfon ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy i'r Swyddfa Academaidd **AR ÔL** i chi roi eich gwaith i mewn neu benderfynu na fyddwch yn gallu rhoi gwaith i mewn. Dylech wneud hynny o fewn wythnos, **ond** dim mwy na **15 niwrnod gwaith clir** ar ôl y dyddiad cyflwyno gwreiddiol). Rhaid i chi ddarparu prawf o'r dyddiad y cyflwynwyd y gwaith mewn gwirionedd. Nid ystyrir ceisiadau a gyflwynir y tu allan i'r cyfnod amser hwn oni bai bod dystiolaeth annibynnol i ddangos rhesymau argyhoeddiadol pam na chyflwynwyd y cais yn amserol.

CASGLU TYSTIOLAETH – GWNEUD Y GWAITH A'I GYFLWYNO – GWNEUD CAIS AM AMGYLCHIADAU ESGUSODOL

ADRAN 1: CANLLAWIAU CYFLYM I FYFYRWYR

AMGYLCHIADAU ESGUSODOL – ARHOLIADAU A CHYFLWYNIADAU: CANLLAW CYFLYM I FYFYRWYR

Os ydych o'r farn y gallai amgylchiadau esgusodol fod wedi amharu ar eich gallu i sefyll arholiad / rhoi cyflwyniad neu wedi amharu ar eich perfformiad mewn arholiad / cyflwyniad:

1. dylech sicrhau y gallwch ddarparu tystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy i gefnogi hyn, a
2. dylech ystyried y gweithredoedd isod (gan nodi'r canlyniadau gwahanol sy'n dibynnu ar y penderfyniad ffurfiol ynglŷn â'r amgylchiadau esgusodol):

Gweithred	Beth a Pham	Canlyniad os mai'r penderfyniad ffurfiol ynglŷn â'r amgylchiadau esgusodol yw:	
		CADARNHAU	GWRTHOD
Sefyll yr arholiad / rhoi'r cyflwyniad	Efallai na fydd eich perfformiad yn cyrraedd eich safon arferol, ond ni chaiff gosb fel arall.	Byddech yn gallu dewis un o'r isod: i) derbyn y marc a ddyfarnwyd am eich arholiad / cyflwyniad, neu ii) sefyll yr arholiad / rhoi'r cyflwyniad ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb.	Mae'r marc a ddyfarnwyd yn sefyll. (Os mai marc methu ydyw, gallai'r Bwrdd Arholi ganiatáu ymgais pellach i chi yn ystod y cyfnod ailasesu, wedi'i gapio ar y marc pasio lleiaf (40% ar gyfer Lefelau 4, 5 a 6 neu 50% ar gyfer Lefel 7).
Peidio â sefyll yr arholiad / peidio â rhoi'r cyflwyniad	Rydych o'r farn na allwch sefyll yr arholiad / rhoi'r cyflwyniad oherwydd eich amgylchiadau esgusodol. Yn y lle cyntaf cofnodir hyn fel peidio ag ymgeisio (non-attempt) a dyfernir marc o 0% i chi.	Byddech yn cael caniatâd i sefyll yr arholiad / rhoi'r cyflwyniad ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb.	Mae'r marc am beidio ag ymgeisio (marc o 0%) yn sefyll. Gallai'r Bwrdd Arholi ganiatáu ymgais pellach i chi yn ystod y cyfnod ailasesu, wedi'i gapio ar y marc pasio lleiaf (40% ar gyfer Lefelau 4, 5 a 6 neu 50% ar gyfer Lefel 7).
Gadael yr arholiad / cyflwyniad yn gynnar	Oherwydd eich amgylchiadau esgusodol mae'n bosibl y bydd rhaid i chi adael yr arholiad / cyflwyniad cyn ei fod wedi'i gwblhau. Efallai na fydd eich perfformiad yn cyrraedd eich safon arferol, ond ni chaiff gosb fel arall.	Byddech yn gallu dewis un o'r isod: i) derbyn y marc a ddyfarnwyd am eich arholiad / cyflwyniad, neu ii) sefyll yr arholiad / rhoi'r cyflwyniad ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb.	Mae'r marc a ddyfarnwyd yn sefyll. (Os mai marc methu ydyw, gallai'r Bwrdd Arholi ganiatáu ymgais pellach i chi yn ystod y cyfnod ailasesu, wedi'i gapio ar y marc pasio lleiaf (40% ar gyfer Lefelau 4, 5 a 6 neu 50% ar gyfer Lefel 7).

3. dylech gwblhau'r Ffurflen Amgylchiadau Esgusodol (Atodiad GA1) a'i hanfon ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy i'r Swyddfa Academaidd **AR ÔL** yr arholiad/cyflwyniad, **ond** dim mwy na **15 niwrnod gwaith clir** ar ôl dyddiad yr arholiad / cyflwyniad. Nid ystyrir ceisiadau a gyflwynir y tu allan i'r cyfnod amser hwn oni bai bod tystiolaeth annibynnol i ddangos rhesymau argyhoeddiadol pam na chyflwynwyd y cais yn amserol.

SYLWER: Os gwyddoch ymlaen llaw na allwch sefyll yr arholiad / rhoi'r cyflwyniad (er enghraifft mae gennych apwyntiad ysbyty ar ddyddiad yr arholiad / cyflwyniad ac ni allwch ei newid), dylech hysbysu'r Swyddfa Academaidd cyn gynted â phosibl gan nodi'n eglur eich bod yn rhoi rhybudd ymlaen llaw am eich absenoldeb arfaethedig.

ADRAN 2: CYFARWYDDYD I FYFYRWYR A STAFF

Mesurau cydadferol i fyfyrwyr â nam hirdymor

Fel arfer nid ystyrir namau hirdymor yn sail i amgylchiadau esgusodol. Gofynnir i bob myfyriwr â nam hirdymor ddod i gyfweiliad cychwynnol gydag aelod o dîm Gwasanaethau Myfyrwyr i ddynodi gofynion posibl a threfnu 'asesiad anghenion' diagnostig ac arbenigol. Bydd y gwasanaeth Cymorth Dysgu'n rhoi cyngor ar y cyfarwyddyd a roddir yn Asesiad Anghenion y myfyriwr a/neu mewn asesiad diagnostig/asesiad meddygol, a allai fod yn berthnasol i asesiadau, megis aseiniadau, cyflwyniadau llafar, lleoliadau, gwaith maes a/neu arholiadau.

Bydd y gwasanaeth Cymorth Dysgu, mewn ymgynghoriad â'r myfyriwr a'r Ysgol, yn llunio patrwm o fesurau cydadferol i fod yn rhan o'r asesiad arferol o'r myfyriwr. Llunnir **Datganiad o Fesurau Cydadferol (Atodiad GA17)** unigol i'r myfyriwr a fydd yn ymarferol ac yn diwallu anghenion y myfyriwr. Noda'r datganiad y mesurau cydadferol generig sydd i'w cymhwyso at bob asesiad y bydd rhaid i'r myfyriwr ei wneud yn ôl y math o asesiad (er enghraifft drwy ddefnyddio dyddiadau terfyn safonol a wahaniaethir ac osgoi dyddiadau terfyn asesiadau sy'n agos at ei gilydd ac eithrio arholiadau).

Pan gytunir ar y mesurau cydadferol generig sydd i'w cymhwyso at bob asesiad yn ôl y math o asesiad, bydd y gwasanaeth Cymorth Dysgu, gan gydweithio â'r myfyriwr, yn cynghori'r Ysgol am yr union fesurau cydadferol sydd i'w cymhwyso at rannau penodol o asesiadau modylau unigol fesul achos. Mewn llawer achos ni fydd angen cymhwyso unrhyw fesurau cydadferol ychwanegol at ran benodol o asesiad y tu hwnt i'r mesurau cydadferol a gynnigir ar draws pob modwl.

Os honnir bod anghenion pellach wedi codi, gellir gwneud cais i'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr am asesiad pellach a all arwain at newid y mesurau cydadferol generig a gynnigir i fyfyriwr ynghyd â **Datganiad o Fesurau Cydadferol** diwygiedig.

Cydnabyddir y gallai rhai myfyrwyr â namau hirdymor ddatblygu anawsterau byrdymor hefyd, nad ydynt â chysylltiad uniongyrchol â'u namau hirdymor. Mewn achosion o'r fath dylai myfyrwyr gyfeirio at weithdrefnau'r Brifysgol yng nghyswllt Amgylchiadau Esgusodol ar gyfer Darpariaeth a Addysgir a dylent hysbysu'r Panel Amgylchiadau Esgusodol am unrhyw fesurau cydadferol a gytunwyd cyn hynny.

ADRAN 2: CYFARWYDDYD I FYFYRWYR A STAFF

Amgylchiadau Esgusodol – Gwaith Cwrs

Os ydy myfyriwr o'r farn y gallai amgylchiadau esgusodol fod wedi amharu ar ei berfformiad neu ar ei allu ef/hi i gwblhau'r gwaith cwrs, dylai sicrhau y gall ddarparu tystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy i gefnogi hyn.

Rhaid i'r myfyriwr benderfynu a ddylai:

1. Roi'r gwaith cwrs i mewn ar amser (er ei fod yn teimlo fod y gwaith yn anghyflawn neu yr amharwyd ar ei berfformiad);
2. Cymryd amser ychwanegol i gwblhau'r gwaith cwrs i safon sy'n ei fodloni ac wedyn ei roi i mewn yn hwyr (hyd at wythnos ar ôl y dyddiad terfyn).

Os bydd myfyriwr yn rhoi'i waith i mewn o fewn wythnos ar ôl y dyddiad terfyn, bydd y gwaith yn cael ei farcio fel arfer a gosodir cosb wedyn yn unol â'r rheoliadau - wedi'i gapio ar 40% (neu'i gapio ar 50% ar gyfer gwaith Lefel 7) yn achos ymgais cyntaf, neu 0% os yw'r gwaith wedi'i roi i mewn yn hwyr yn achos ailasesiadau. Ni dderbynnir gwaith wedi i wythnos fynd heibio ar ôl y dyddiad terfyn a rhoddir marc methu o 0% i'r myfyriwr am beidio ag ymgeisio.

Mewn achosion eithriadol, gallai'r myfyriwr deimlo na allai gwblhau'r gwaith i safon sy'n ei fodloni o fewn wythnos ar ôl y dyddiad terfyn ac felly ni fydd yn rhoi'r gwaith cwrs i mewn (er mwyn i hyn gyfrif fel peidio ag ymgeisio).

Dylai'r myfyriwr wedyn gwblhau Atodiad GA1 (Ffurflen Amgylchiadau Esgusodol) a dylai gasglu ynghyd dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy i gefnogi'i gais am amgylchiadau esgusodol yn ogystal â phrawf o'r union ddyddiad y rhoddwyd y gwaith i mewn. Dylid cymryd gofal wrth ddyddiad'r modwl a'r asesiadau yr effeithir arnynt ac wrth ddarparu dyddiad yr asesiad (y dyddiad terfyn gwreiddiol) a'r dyddiad y rhoddwyd y gwaith i mewn (yr union ddyddiad cyflwyno).

Dylid anfon Atodiad GA1 i'r Swyddfa Academaidd, i'w dderbyn ddim mwy na 15 niwrnod gwaith clir ar ôl y dyddiad cyflwyno gwreiddiol.

Ar ôl derbyn Atodiad GA1, bydd y Swyddfa Academaidd yn gwirio bod:

1. Y cais wedi'i dderbyn ddim mwy na 15 niwrnod gwaith clir ar ôl dyddiad gwreiddiol yr asesiad (oni bai bod dystiolaeth annibynnol i egluro'r oedi).
2. Y cais yn bodloni'r meini prawf (h.y. yn cyfeirio at amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y myfyriwr ac nad yw'n seiliedig ar fân broblemau iechyd nad ydynt yn gorlethu rhywun, nac yn seiliedig ar golli gwaith oherwydd bod cyfrifiadur neu gyfarpar electronig arall wedi torri, colli gwaith yn sgil lladrad neu am na ellir dod o hyd i'r gwaith, anawsterau o ran cyflwyno gwaith i'w asesu oherwydd problemau technegol; anhawster cael gafael ar ddefnyddiau, amhariadau domestig neu bersonol nad ydynt yn ddifrifol, anawsterau ariannol arferol y gall myfyrwyr eu hwynebu, namau hirdymor y darperir ar eu cyfer gan fesurau cydadferol a gytunwyd gan yr uned Gwasanaethau Myfyrwyr);
3. Pob adran o Atodiad GA1 wedi'i chwblhau'n briodol (1. Manylion y myfyriwr, 2. Natur yr amgylchiadau, 3. Asesiadau a effeithiwyd, 4. Blwch Ticio ynghylch Mesurau Cydadferol. 5. Disgrifiad cryno o'r amgylchiadau esgusodol, 6. Tystiolaeth ategol annibynnol wiriadwy);
4. Tystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy wedi'i darparu.
5. Prawf o union ddyddiad cyflwyno'r gwaith wedi'i ddarparu.
6. Y Rhestr Wirio wedi'i chwblhau.

Os na fodlonir pob un o'r gwiriadau uchod, dychwelir Atodiad GA1 i'r myfyriwr heb ystyriaeth bellach i'r cais a hysbysir y myfyriwr o'r rhesymau pam y dychwelwyd y cais. Os gall

ADRAN 2: CYFARWYDDYD I FYFYRWYR A STAFF

myfyriwr ymateb ar unwaith i'r rheswm am ei ddychwelyd (trwy ddarparu tystiolaeth annibynnol o reswm argyhoeddiadol pam y cyflwynwyd y cais yn hwyr, neu trwy ddarparu cais cyflawn, neu trwy ddarparu tystiolaeth ddogfennol annibynnol wriadwy i gefnogi'r cais, neu trwy ddarparu prawf o'r union ddyddiad y rhoddwyd gwaith i mewn), gall y myfyriwr ofyn i'r cais gael ei ystyried.

Ystyrir ceisiadau mewn perthynas ag amgylchiadau esgusodol a gyflwynir yn dilyn hysbysiad ffurfiol neu anffurfiol o ganlyniad yr asesiad dim ond os yw'r myfyriwr yn gallu darparu tystiolaeth annibynnol i ddangos rhesymau argyhoeddiadol ynghylch pam na chyflwynwyd y cais cyn cael gwybod y canlyniadau.

Os bodlonir pob gwiriad, yna asesir y cais gan y Swyddfa Academaidd.

Bydd y Swyddfa Academaidd yn CADARNHAU'R cais (hynny yw yn derbyn yr amgylchiadau esgusodol) os daeth y cais i law mewn modd amserol a'i fod wedi'i gefnogi'n briodol gan dystiolaeth ddogfennol annibynnol wriadwy sy'n ymwneud yn glir â'r asesiad(au) yn y cais. Mewn achosion o'r fath hysbysir y myfyriwr, y Cyfarwyddwr Rhaglen a gweinyddwr y Gyfadran fod y cais wedi'i gadarnhau.

Bydd y Swyddfa Academaidd yn GWRTHOD y cais (hynny yw yn gwrthod yr amgylchiadau esgusodol) os nad yw'r dystiolaeth a roddwyd yn briodol neu'n berthnasol naill ai i'r cais neu i unrhyw esboniad pam na chyflwynwyd y cais mewn modd amserol. Mewn achosion o'r fath hysbysir y myfyriwr, y Cyfarwyddwr Rhaglen a gweinyddwr y Gyfadran fod y cais wedi'i wrthod.

Os nad yw'r Swyddfa Academaidd yn gallu dod i benderfyniad, hysbysir y myfyriwr, y Cyfarwyddwr Rhaglen a gweinyddwr y Gyfadran y cyflwynir y ffurflen i gyfarfod nesaf y Panel Amgylchiadau Esgusodol (PAE).

Y PAE fydd yn penderfynu a ddylid CADARNHAU neu WRTHOD y cais.

Hysbysir myfyriwr am benderfyniad y PAE a'r canlyniad/camau gweithredu drwy e-bost o fewn 5 niwrnod gwaith clir ar ôl cyfarfod y PAE.

Os GWRTHODIR y cais – bydd y canlyniad yn un o'r tri a nodir isod:

1. **Yn achos gwaith a roddwyd i mewn ar amser** - bydd y marc a ddyfarnwyd yn sefyll (hyd yn oed os ydy'r gwaith a gyflwynwyd yn anghyflawn neu os nad yw'n cyrraedd safonau "arferol" y myfyriwr);
2. **Yn achos gwaith a roddwyd i mewn hyd at wythnos yn hwyr:** bydd y gosb hwyr yn sefyll (hynny yw: wedi'i gapio ar 40% - wedi'i gapio ar 50% ar gyfer gwaith Lefel 7 - yn achos ymgais cyntaf, neu dyfernir marc o 0% os yw'r gwaith yn hwyr yn achos ailasesiadau);
3. **Yn achos gwaith na chafodd ei roi i mewn (neu a roddwyd i mewn fwy nag wythnos wedi'r dyddiad terfyn):** bydd y marc o 0% am beidio ag ymgeisio yn sefyll.

Os CADARNHEIR y cais, bydd y canlyniad yn un o'r canlynol:

1. **Yn achos gwaith a roddwyd i mewn ar amser:** cynnig cyfle i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb, os ydy'r myfyriwr yn dymuno hynny (mae'n bosibl y bydd y myfyriwr yn penderfynu ei fod yn fodlon ar y marc a enillwyd ac felly nid yw'n dymuno ailgyflwyno) - os ailgyflwynir y gwaith bydd y marc cyntaf yn cael ei fforffedu;
2. **Yn achos gwaith a roddwyd i mewn hyd at wythnos ar ôl y dyddiad terfyn:** codi'r gosb hwyr;

ADRAN 2: CYFARWYDDYD I FYFYRWYR A STAFF

3. **Yn achos gwaith na chafodd ei roi i mewn (neu a roddwyd i mewn fwy nag wythnos wedi'r dyddiad terfyn):** caniatáu i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb ychwanegol.

Sylwer: Mewn achosion lle rhoddir gwaith i mewn yn hwyr (neu ddim o gwbl), gellir penderfynu bod amgylchiadau esgusodol, ond nad oeddynt yn cyfiawnhau bod y gwaith mor hwyr (neu heb ei gyflwyno o gwbl), ac felly GWRTHODIR y cais (e.e. mae gan fyfyrwr dystiolaeth feddygol yn dangos y collwyd ychydig ddiwrnodau o amser, ond mae'n methu rhoi ei waith i mewn o fewn wythnos i'r dyddiad terfyn).

Mae gan fyfyrwr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol ar y seiliau isod:

- a. afreoleidd-dra wrth weithredu'r weithdrefn amgylchiadau esgusodol, gyda'r afreoleidd-dra hwnnw, yn sgil ei natur, yn achosi amheuaeth resymol a fyddid wedi dod i'r un penderfyniad pe na bai wedi digwydd;
- b. bod y penderfyniad, ym marn y myfyriwr, wedi methu â rhoi ystyriaeth ddyledus i amgylchiadau a nodwyd yn y cais, neu ni ddarparwyd yr holl fanylion yn gysylltiedig ag amgylchiadau penodol yn y cais ac mae rheswm argyhoeddiadol dros hepgor y manylion hynny.

Dylid anfon unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol yn llawn ac yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Academaidd a rhaid iddi gael ei derbyn ar y ffurflen apelio briodol (Atodiad GA12) fel arfer dim hwyrach na 15 niwrnod gwaith clir ar ôl hysbysu'r myfyriwr o'r penderfyniad.

Amgylchiadau Esgusodol – Arholiadau a / neu gyflwyniadau

Os ydy myfyriwr o'r farn y gallai amgylchiadau esgusodol fod wedi amharu ar ei allu i sefyll arholiad / rhoi cyflwyniad neu wedi amharu ar ei berfformiad mewn arholiad / cyflwyniad, dylai sicrhau y gall ddarparu tystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy i gefnogi hyn.

Rhaid i'r myfyriwr benderfynu a ddylai:

1. Sefyll yr arholiad / rhoi'r cyflwyniad (er ei fod yn teimlo y gallai ei berfformiad fod wedi'i amharu);
2. Peidio â sefyll yr arholiad / rhoi'r cyflwyniad.

Os bydd myfyriwr yn sefyll yr arholiad / rhoi'r cyflwyniad, bydd yn cael ei farcio yn y dull arferol. Os na fydd y myfyriwr yn sefyll yr arholiad / rhoi'r cyflwyniad, dyfernir marc methu o 0% i'r myfyriwr am beidio ag ymgeisio.

Mewn achosion eithriadol, mae'n bosibl y bydd myfyriwr yn dechrau sefyll arholiad / rhoi cyflwyniad, ond yn penderfynu gadael yr arholiad / cyflwyniad yn gynnar efallai (cyn cwblhau'r arholiad / cyflwyniad cyfan) oherwydd ei amgylchiadau esgusodol.

Dylai'r myfyriwr wedyn gwblhau Atodiad GA1 (Ffurflen Amgylchiadau Esgusodol) a dylai gasglu ynghyd dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy i gefnogi'i gais am amgylchiadau esgusodol. Dylid cymryd gofal wrth ddynodi'r modwl a'r arholiadau / cyflwyniadau yr effeithiwyd arnynt ac wrth ddarparu dyddiad yr arholiad / cyflwyniad.

ADRAN 2: CYFARWYDDYD I FYFYRWYR A STAFF

Dylid anfon Atodiad GA1 i'r Swyddfa Academaidd, i'w dderbyn ddim mwy na 15 niwrnod gwaith clir ar ôl dyddiad yr arholiad / cyflwyniad.

Ar ôl derbyn Atodiad GA1, bydd y Swyddfa Academaidd yn gwirio bod:

1. Y cais wedi'i dderbyn ddim mwy na 15 niwrnod gwaith clir ar ôl dyddiad gwreiddiol yr asesiad (oni bai bod tystiolaeth annibynnol i egluro'r oedi).
2. Y cais yn bodloni'r meini prawf (h.y. yn cyfeirio at amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y myfyriwr ac nad yw'n seiliedig ar fân broblemau iechyd nad ydynt yn gorlethu rhywun, nac yn seiliedig ar gollu gwaith oherwydd bod cyfrifiadur neu gyfarpar electronig arall wedi torri, colli gwaith yn sgil lladrad neu am na ellir dod o hyd i'r gwaith, anawsterau o ran cyflwyno gwaith i'w asesu oherwydd problemau technegol; anhawster cael gafael ar ddefnyddiau, amhariadau domestig neu bersonol nad ydynt yn ddifrifol, anawsterau ariannol arferol y gall myfyrwyr eu hwynebu, namau hirdymor y darperir ar eu cyfer gan fesurau cydadferol a gytunwyd gan yr uned Gwasanaethau Myfyrwyr);
3. Pob adran o Atodiad GA1 wedi'i chwblhau'n briodol (1. Manylion y myfyriwr, 2. Natur yr amgylchiadau, 3. Asesiadau a effeithiwyd, 4. Blwch Ticio ynghylch Mesurau Cydadferol. 5. Disgrifiad cryno o'r amgylchiadau esgusodol, 6. Tystiolaeth ategol annibynnol wiriadwy);
4. Tystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy wedi'i darparu.
5. Y Rhestr Wirio wedi'i chwblhau.
6. Y Rhestr Wirio wedi'i chwblhau.

Os na fodlonir pob un o'r gwiriadau uchod, dychwelir Atodiad GA1 i'r myfyriwr heb ystyriaeth bellach i'r cais a hysbysir y myfyriwr o'r rhesymau pam y dychwelwyd y cais. Os gall myfyriwr ymateb ar unwaith i'r rheswm am ei ddychwelyd (trwy ddarparu tystiolaeth annibynnol o reswm argyhoeddiadol pam y cyflwynwyd y cais yn hwyr, neu trwy ddarparu cais cyflawn, neu trwy ddarparu tystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy i gefnogi'r cais), gall y myfyriwr ofyn i'r cais gael ei ystyried.

Ystyrir ceisiadau mewn perthynas ag amgylchiadau esgusodol a gyflwynir yn dilyn hysbysiad ffurfiol neu anffurfiol o ganlyniad yr asesiad dim ond os yw'r myfyriwr yn gallu darparu tystiolaeth annibynnol i ddangos rhesymau argyhoeddiadol ynghylch pam na chyflwynwyd y cais cyn cael gwybod y canlyniadau.

Os bodlonir pob gwiriad, yna asesir y cais gan y Swyddfa Academaidd.

Bydd y Swyddfa Academaidd yn CADARNHAU'R cais (hynny yw yn derbyn yr amgylchiadau esgusodol) os daeth y cais i law mewn modd amserol a'i fod wedi'i gefnogi'n briodol gan dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy sy'n ymwneud yn glir â'r asesiad(au) yn y cais. Mewn achosion o'r fath hysbysir y myfyriwr, y Cyfarwyddwr Rhaglen a gweinyddwr y Gyfadran fod y cais wedi'i gadarnhau.

Bydd y Swyddfa Academaidd yn GWRTHOD y cais (hynny yw yn gwrthod yr amgylchiadau esgusodol) os nad yw'r dystiolaeth a roddwyd yn briodol neu'n berthnasol naill ai i'r cais neu i unrhyw esboniad pam na chyflwynwyd y cais mewn modd amserol. Mewn achosion o'r fath hysbysir y myfyriwr, y Cyfarwyddwr Rhaglen a gweinyddwr y Gyfadran fod y cais wedi'i wrthod.

Os nad yw'r Swyddfa Academaidd yn gallu dod i benderfyniad, hysbysir y myfyriwr, y Cyfarwyddwr Rhaglen a gweinyddwr y Gyfadran y cyflwynir y ffurflen i gyfarfod nesaf y Panel Amgylchiadau Esgusodol (PAE).

Y PAE fydd yn penderfynu a ddylid CADARNHAU neu WRTHOD y cais.

ADRAN 2: CYFARWYDDYD I FYFYRWYR A STAFF

Hysbysir myfyriwr am benderfyniad y PAE a'r canlyniad/camau gweithredu drwy e-bost o fewn 5 niwrnod gwaith clir ar ôl cyfarfod y PAE.

Os GWRTHODIR y cais – bydd y canlyniad yn un o'r ddau a nodir isod:

1. **Os safwyd yr arholiad / rhoddwyd y cyflwyniad:** bydd y marc a ddyfarnwyd am yr arholiad/cyflwyniad yn sefyll (hyd yn oed os gadawodd y myfyriwr yr arholiad/cyflwyniad yn gynnar neu os nad yw'r gwaith yn cyrraedd safonau "arferol" y myfyriwr);
2. **Os na safwyd yr arholiad / rhoddwyd y cyflwyniad:** bydd y marc o 0% am beidio ag ymgeisio yn sefyll.

Os CADARNHEIR y cais, bydd y canlyniad yn un o'r canlynol:

1. **Os safwyd yr arholiad / rhoddwyd y cyflwyniad:** cynnig cyfle i'r myfyriwr ailsefyll yr arholiad / ail-wneud y cyflwyniad ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb, os ydy'r myfyriwr yn dymuno hynny (mae'n bosibl y bydd y myfyriwr yn penderfynu ei fod yn fodlon ar y marc a enillwyd ac felly nid yw'n dymuno ailsefyll). Os bydd yn ailsefyll yr arholiad/ail-wneud y cyflwyniad bydd y marc cyntaf yn cael ei fforffedu;
2. **Os na safwyd yr arholiad / rhoddwyd y cyflwyniad:** Caniatáu i'r myfyriwr ailsefyll yr arholiad ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb ychwanegol.

Mae gan fyfyrwr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol ar y seiliau isod:

- a. afreoleidd-dra wrth weithredu'r weithdrefn amgylchiadau esgusodol, gyda'r afreoleidd-dra hwnnw, yn sgil ei natur, yn achosi amheuaeth resymol a fyddid wedi dod i'r un penderfyniad pe na bai wedi digwydd;
- b. bod y penderfyniad, ym marn y myfyriwr, wedi methu â rhoi ystyriaeth ddyledus i amgylchiadau a nodwyd yn y cais, neu ni ddarparwyd yr holl fanylion yn gysylltiedig ag amgylchiadau penodol yn y cais ac mae rheswm argyhoeddiadol dros hepgor y manylion hynny.

Dylid anfon unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol yn llawn ac yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Academaidd a rhaid iddi gael ei derbyn ar y ffurflen apelio briodol (Atodiad GA12) fel arfer dim hwyrach na 15 niwrnod gwaith clir ar ôl hysbysu'r myfyriwr o'r penderfyniad.

ADRAN 3: ASTUDIAETHAU ACHOS FFUGLENNOL

Astudiaethau achos

Cyflwynir nifer o astudiaethau achos isod i roi cyfarwyddyd ar y modd y dylai myfyrwyr (a staff) ymdrin â'r gweithdrefnau amgylchiadau esgusodol. Cydnabyddir na fydd y sefyllfaoedd, mewn amryw achosion go iawn, mor eglur â'r rheini a gyflwynir yn yr astudiaethau achos isod.

Ym mhob achos, dylai myfyrwyr gofio y bydd angen tystiolaeth annibynnol i gefnogi'r cais. Mewn achosion lle mae myfyriwr yn cyflwyno gwaith yn hwyr, dylai'r dystiolaeth annibynnol nodi'n eglur faint o amser mae'r myfyriwr wedi'i "gollu" oherwydd yr amgylchiadau esgusodol.

ASTUDIAETH ACHOS 1

Roedd bach o annwyd ar Peter ar y diwrnod yr oedd i fod i gyflwyno'i draethawd. Ni all ddarparu unrhyw dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy oherwydd nid aeth i'r feddygfa. Rhoddodd y traethawd i mewn ddiwrnod yn hwyr, ond nid yw'n dymuno i'w draethawd gael ei gapio.

Gall Peter wneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 o fewn 15 niwrnod ar ôl dyddiad gwreiddiol yr asesiad gyda phrawf o'r union ddyddiad cyflwyno, ond yn yr achos hwn byddai'r Swyddfa Academaidd yn dychwelyd y cais oherwydd nid yw wedi darparu unrhyw dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy, ac mae'r cais yn seiliedig ar fân broblem iechyd nad oedd wedi'i orlethu ac a barodd lai nag wythnos. Bydd traethawd Peter yn cael ei farcio fel arfer, ond cymhwysir cosb hwyr (bydd y marc yn cael ei gapio gan iddo gyflwyno o fewn wythnos ar ôl y dyddiad terfyn a dyna oedd ei ymgais cyntaf).

ASTUDIAETH ACHOS 2

Mae Sarah yn mynd ar wyliau i Foroco yr wythnos nesaf am bythefnos. Mae ganddi draethawd i'w gyflwyno ac mae'r dyddiad terfyn tra bydd i fwrdd ac mae'n pryderu efallai na fydd ganddi fynediad i'r Rhyngwyd tra bydd ar ei gwyliau. Hoffai roi'i thraethawd i mewn ar ôl dychwelyd o'r gwyliau (sy'n golygu y bydd yn ei roi i mewn yn hwyr).

Gall Sarah wneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 o fewn 15 niwrnod ar ôl dyddiad gwreiddiol yr asesiad gyda phrawf o'r union ddyddiad cyflwyno, ond yn yr achos hwn byddai'r Swyddfa Academaidd yn dychwelyd y cais oherwydd ystyrir mynd ar wyliau yn amhariad domestig neu bersonol annifrifol ac nid yw "y tu hwnt i reolaeth y myfyriwr". Dylai naill ai roi'r traethawd i mewn yn gynnar (cyn iddi fynd ar wyliau) neu sicrhau y gall ei roi i mewn o fewn y dyddiad terfyn tra bydd ar ei gwyliau. Os bydd yn ei roi i mewn yn hwyr, rhaid iddi dderbyn y cymhwysir cosb hwyr ac y bydd y marc yn cael ei gapio.

ASTUDIAETH ACHOS 3

Mae nam hirdymor ar David y mae Gwasanaethau Myfyrwyr yn ymwybodol ohono. Dylai fod ganddo set o fesurau cydadferol a gytunwyd eisoes ar gyfer pob asesiad. Nid oes angen i David gyfeirio at y gweithdrefnau Amgylchiadau Esgusodol oni bai iddo ddatblygu anawsterau byrdymor nad ydynt â chysylltiad uniongyrchol â'i nam hirdymor.

Nodyn ar yr astudiaeth achos hon – os nad oedd Gwasanaethau Myfyrwyr yn ymwybodol o nam hirdymor David, yna byddai angen i David gysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr cyn gynted â phosibl er mwyn gallu gosod set briodol o fesurau cydadferol yn ei lle. Ni ellir cymhwyso mesurau cydadferol yn ôl-weithredol at waith a gyflwynwyd eisoes nac at arholiadau a safwyd eisoes, felly cyfrifoldeb y myfyriwr yw cysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr cyn gynted â phosibl (a chyn unrhyw ddyddiad terfyn) er mwyn sicrhau bod mesurau cydadferol priodol yn eu lle.

ADRAN 3: ASTUDIAETHAU ACHOS FFUGLENNOL

ASTUDIAETH ACHOS 4

Mae Cerys yn gwybod y bydd rhaid iddi fynd i'r ysbyty ymhen mis am llawdriniaeth ac mae llythyr apwyntiad ganddi oddi wrth yr ysbyty. Dywedwyd wrthi y bydd angen o leiaf 3 wythnos arni i wella wedi'r llawdriniaeth a chadarnheir hyn yn ei llythyr. Mae dyddiad y llawdriniaeth a'r cyfnod gwella'n cyd-daro â dyddiadau terfyn nifer o draethodau.

Yn yr achos hwn, mae'r amgylchiadau esgusodol a'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar waith Cerys yn hysbys ymhell cyn y dyddiadau terfyn. I bob diben mae hwn yn "amhariad hysbys am gyfnod penodol" a dyma'r unig sefyllfa lle gellir ystyried cais am amgylchiadau esgusodol cyn y dyddiad terfyn. Dylai Cerys ystyried y dewisiadau isod yn llawn:

Dewisiadau:

1. Os bydd yr amgylchiadau esgusodol yn cychwyn ddiwrnod neu ddau cyn unrhyw ddyddiad terfyn, efallai yr hoffai Cerys ystyried rhoi'i thraethodau i mewn yn gynnar (ychydig cyn iddi fynd i'r ysbyty). Ni fyddai'n gallu gwneud cais am amgylchiadau esgusodol yn yr achos hwn gan ei bod wedi dewis rhoi ei thraethodau i mewn ychydig yn gynnar cyn i'w hamgylchiadau esgusodol gael effaith uniongyrchol.
2. Gall Cerys wneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 (wedi'i gefnogi gan ei thystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy) cyn gynted ag y mae'n ymwybodol am yr amhariad hysbys am gyfnod penodol. Yn ei chais, rhaid iddi nodi a ydy'n bwriadu rhoi ei thraethodau i mewn o fewn wythnos ar ôl y dyddiad terfyn (gan wneud cais felly i beidio â chymhwyso'r gosb hwyr – bydd angen iddi ddarparu prawf o'r union ddyddiad cyflwyno cyn gynted y bydd wedi rhoi ei thraethodau i mewn) - ynteu nodi na fydd yn gallu rhoi ei thraethodau i mewn o fewn wythnos ar ôl y dyddiad terfyn (gan ofyn felly am ganiatâd i roi darn newydd o waith i mewn ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb). Yn yr achos hwn, byddai'r Swyddfa Academaidd yn cadarnhau'i chais a chaniateir iddi naill ai roi'r gwaith i mewn yn hwyr (hyd at wythnos wedi'r dyddiad terfyn) heb gymhwyso'r gosb hwyr neu caniateir iddi roi darn newydd o waith i mewn ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb ychwanegol.

Nodyn ar yr astudiaeth achos hon – os oes arholiadau / cyflwyniadau gan Cerys yn ystod y cyfnod y bydd yn yr ysbyty neu'n gwella ar ôl ei llawdriniaeth, dylai wneud cais fel y nodwyd yn opsiwn 2 uchod, ond gan nodi na fydd yn gallu mynychu'r arholiadau / rhoi'r cyflwyniadau. Yn yr achos hwn, byddai'r Swyddfa Academaidd yn cadarnhau'i chais a chaniateir iddi sefyll yr arholiad / rhoi'r cyflwyniad ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb ychwanegol.

Os oedd y llawdriniaeth a'r cyfnod gwella wedi digwydd cyn unrhyw un o ddyddiadau terfyn Cerys (h.y. roedd yn hollol iach erbyn y dyddiadau terfyn), byddai'n dilyn y canllawiau a nodir yn Astudiaeth Achos 5 isod.

ASTUDIAETH ACHOS 5

Cafodd John gyfnod o salwch dair wythnos cyn ei ddyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno gwaith (gall gael nodyn meddygol a fydd yn dangos nad oedd yn ddigon iach i astudio am bythefnos). Nid yw John wedi gallu canolbwyntio'n iawn ar ei draethawd ac wrth i'r dyddiad cyflwyno agosáu mae'n siŵr na fydd yn gallu rhoi traethawd gorffenedig i mewn ar amser.

Cyn gwneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 dylai John ystyried yn llawn y tri dewis a nodir isod.

ADRAN 3: ASTUDIAETHAU ACHOS FFUGLENNOL

Dewisiadau:

1. Gall John roi'r gwaith sydd ganddo i mewn erbyn y dyddiad terfyn ac wedyn gwneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 (wedi'i gefnogi gan ei dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy a phrawf o'r union ddyddiad cyflwyno) o fewn 15 niwrnod ar ôl dyddiad gwreiddiol yr asesiad. Bydd ei waith yn cael ei farcio fel arfer. Yn yr achos hwn byddai'r Swyddfa Academaidd yn cadarnhau'i gais (gan fod dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy ganddo sy'n cefnogi'r amgylchiadau esgusodol a gan ei fod wedi darparu prawf o'r union ddyddiad cyflwyno). Byddai'n cael dewis rhoi darn newydd o waith i mewn ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb ychwanegol os nad yw'n hapus â'r marc mae'n ei gael am ei waith (ond, gallai benderfynu bod y marc y mae'n ei ennill yn ddigon da ac felly nid oes angen ei asesu eto).
2. Gall John barhau i weithio ar ei draethawd nes ei fod wedi'i gwblhau a'i roi i mewn wedi'r dyddiad terfyn (ond nid mwy nag wythnos yn hwyr). Byddai angen iddo wneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 (wedi'i gefnogi gan ei dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy a phrawf o'r union ddyddiad cyflwyno) o fewn 15 niwrnod ar ôl dyddiad gwreiddiol yr asesiad. Bydd ei waith yn cael ei farcio fel arfer, ond cymhwysir cosb hwyr (gan mai dyma yw ei ymgais cyntaf bydd y marc yn cael ei gapio). Yn yr achos hwn byddai'r Swyddfa Academaidd yn cadarnhau'i gais os ydy'n rhoi'r traethawd i mewn o fewn wythnos ar ôl y dyddiad terfyn (gan fod dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy ganddo sy'n cefnogi'r amgylchiadau esgusodol am gyfnod o bythefnos a gan ei fod wedi darparu prawf o'r union ddyddiad cyflwyno) a byddai'r gosb hwyr yn cael ei chodi.
3. Efallai y bydd John yn teimlo na all gwblhau'r traethawd yn foddhaol o fewn wythnos ar ôl y dyddiad terfyn. Os byddai'n ceisio ei roi i mewn fwy nag wythnos ar ôl y dyddiad terfyn, ni fyddai'i draethawd yn cael ei dderbyn i'w farcio a chofnodir nad yw wedi ymgeisio ar y rhan hon o'r asesiad. Gallai wneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 (wedi'i gefnogi gan ei dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy) o fewn 15 niwrnod ar ôl dyddiad gwreiddiol yr asesiad. Yn yr achos hwn, byddai'r Swyddfa Academaidd yn cadarnhau'i gais (gan fod ganddo dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy i gefnogi'i amgylchiadau esgusodol dros gyfnod o bythefnos) a byddai'n gallu rhoi darn newydd o waith i mewn ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb ychwanegol.

ASTUDIAETH ACHOS 6

Mae arholiad gan Julie heddiw. Ar ei ffordd i'r Brifysgol mae mewn damwain traffig. Mae'n gallu cyrraedd ystafell yr arholiad ar amser, ond teimla na fydd yn gallu canolbwyntio'n iawn yn yr arholiad (mae'n bosibl ei bod yn dal i fod mewn sioc wedi'r ddamwain).

Dylai Julie ystyried y ddau ddewis a nodir isod yn llawn.

Dewisiadau:

1. Gallai Julie benderfynu sefyll yr arholiad, er ei bod yn poeni y gallai'r ddamwain effeithio ar ei pherfformiad. Gall wneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 (byddai angen iddi gael dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy i ddangos ei bod wedi bod mewn damwain) o fewn 15 niwrnod ar ôl dyddiad yr arholiad. Bydd ei harholiad yn cael ei farcio fel arfer. Yn yr achos hwn byddai'r Swyddfa Academaidd yn cadarnhau'i chais (a chymryd ei bod wedi darparu dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy sy'n cefnogi'r amgylchiadau esgusodol) a

ADRAN 3: ASTUDIAETHAU ACHOS FFUGLENNOL

bydd yn cael dewis sefyll yr arholiad eto ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb, os nad yw'n hapus â'r marc mae'n ei gael am yr arholiad hwn (ond, gallai benderfynu bod y marc y mae'n ei ennill yn ddigon da ac felly nid oes angen ei hasesu eto).

2. Gallai Julie benderfynu peidio â sefyll yr arholiad. Byddai angen iddi wneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 (byddai angen iddi gael tystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy i ddangos ei bod wedi bod mewn damwain) o fewn 15 niwrnod ar ôl dyddiad yr arholiad. Yn yr achos hwn byddai'r Swyddfa Academaidd yn cadarnhau'i chais (a chymryd ei bod wedi darparu tystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy sy'n cefnogi'r amgylchiadau esgusodol) a chaniateir iddi sefyll yr arholiad ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb.

Nodyn ar yr astudiaeth achos hon – os na all Julie ddarparu'r dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy mae'i hangen i ddangos ei bod wedi bod mewn damwain, byddai'r Swyddfa Academaidd yn dychwelyd y cais. Yn yr achos hwn, byddai'r marc a ddyfarnwyd yn sefyll (dewis 1) neu cofnodir nad oedd Julie wedi ymgeisio ar y rhan hon o'r asesiad (dewis 2). Os byddai rhaid, mae'n bosibl y bydd y Bwrdd Arholi perthnasol wedyn yn caniatáu i Julie ailsefyll yr arholiad am farc wedi'i gapio yn y ffordd arferol.

ASTUDIAETH ACHOS 7

Bu farw tad-cu Aled dair wythnos yn ôl a chynhaliwyd yr angladd yr wythnos diwethaf. Roedd Aled yn agos iawn at ei dad-cu ac mae wedi bod yn teimlo'n drist iawn ers ei farwolaeth; mae'r angladd ond wedi cryfhau'i ymdeimlad o golled. Mae gan Aled gopi o dystysgrif marwolaeth ei dad-cu a chopi o drefn gwasanaeth yr angladd.

Mae rhai dyddiadau terfyn gwaith cwrs gan Aled yn hwyrach yr wythnos hon ac arholiad yr wythnos nesaf. Nid yw wedi gallu canolbwyntio'n iawn ers clywed am farwolaeth ei dad-cu a theimla na fydd yn gallu rhoi traethodau gorffenedig i mewn ar amser. Hefyd mae'n poeni na fydd yn gallu canolbwyntio'n iawn yn ei arholiad.

Dewisiadau:

1. Gall Aled roi'r hyn sydd ganddo i mewn erbyn dyddiadau terfyn y gwaith cwrs a sefyll yr arholiad. Dylai wneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 (wedi'i gefnogi gan ei dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy a phrawf o'r union ddyddiad cyflwyno) o fewn 15 niwrnod ar ôl dyddiad gwreiddiol yr asesiad. Bydd ei waith a'i arholiad yn cael eu marcio fel arfer. Yn yr achos hwn byddai'r Swyddfa Academaidd yn cadarnhau'i gais (gan fod tystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy ganddo sy'n cefnogi'r amgylchiadau esgusodol a gan ei fod wedi darparu prawf o'r union ddyddiad cyflwyno). Byddai'n cael dewis cyflwyno darn newydd o waith ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb ychwanegol am y gwaith cwrs a sefyll yr arholiad eto ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb ychwanegol os nad yw'n hapus â'r marciau mae'n eu cael mewn unrhyw un o'r asesiadau (ond, gallai benderfynu bod y marciau y mae'n eu hennill yn ddigon da ac felly nid oes angen ei asesu eto).
2. Gall Aled barhau i weithio ar ei draethodau nes ei fod wedi'u cwblhau a'u rhoi i mewn ar ôl y dyddiad terfyn (ond nid mwy nag wythnos yn hwyr). Byddai angen iddo wneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 (wedi'i gefnogi gan ei dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy a phrawf o'r union ddyddiad cyflwyno) o fewn 15 niwrnod ar ôl dyddiad gwreiddiol yr asesiad. Bydd ei waith yn cael ei farcio fel arfer, ond cymhwysir cosb hwyr (gan mai hwn yw ei ymgais cyntaf bydd y marc yn cael ei gapio). Yn yr achos hwn byddai'r Swyddfa Academaidd yn cadarnhau'i gais (gan fod tystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy ganddo sy'n

ADRAN 3: ASTUDIAETHAU ACHOS FFUGLENNOL

cefnogi'r amgylchiadau esgusodol am gyfnod digonol o amser a gan ei fod wedi darparu prawf o'r union ddyddiad cyflwyno) a byddai'r gosb hwyr yn cael ei chodi. Byddai naill ai'n sefyll yr arholiad (gweler dewis 1 uchod) neu'n penderfynu peidio â sefyll yr arholiad (gweler dewis 3 isod).

3. Efallai y bydd Aled yn teimlo na all gwblhau'r traethodau'n foddhaol o fewn wythnos ar ôl y dyddiad terfyn a gall benderfynu peidio â sefyll yr arholiad. Os byddai'n ceisio rhoi ei draethodau i mewn fwy nag wythnos ar ôl y dyddiad terfyn, ni fyddai'i draethodau'n cael eu derbyn i'w marcio a chofnodir nad yw wedi ymgeisio ar y rhan hon o'r asesiad. Gallai wneud cais am amgylchiadau esgusodol gan ddefnyddio ffurflen GA1 (wedi'i gefnogi gan ei dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy) o fewn 15 niwrnod ar ôl dyddiad gwreiddiol yr asesiad. Yn yr achos hwn byddai'r Swyddfa Academaidd yn cadarnhau'i gais (gan fod dystiolaeth ddogfennol annibynnol wiriadwy ganddo sy'n cefnogi'r amgylchiadau esgusodol am gyfnod digonol o amser) a chaniateir iddo roi'r darnau newydd o waith i mewn a sefyll yr arholiad ar y pwynt asesu priodol nesaf heb gosb ychwanegol.